THEATR BRYCHEIN!OG



# PENNAETH CYNULLEIDFAOEDD A MARCHNATA

*Pecyn Recriwtio*

# Croeso gan y Prif Weithredwr

Mae Theatr Brycheiniog, sy'n swatio yn nhir syfrdanol hardd Bannau Brycheiniog yng Nghanolbarth Cymru, yn chwilio am Bennaeth Cynulleidfaoedd a Marchnata newydd.

Rydyn ni wedi cyrraedd adeg bwysig ar ein taith. Dros y blynyddoedd diweddar, mae diweddariad cyfalaf gwerth £2 filiwn wedi adfywio ein lleoliad. Rydyn ni wedi goroesi heriau a dod drwyddi i'r ochr draw â mwy o eglurder ac uchelgais a nawr rydyn ni'n barod am y cam nesaf.

Fel sawl sefydliad celfyddydol, rydyn ni'n gweithredu mewn hinsawdd ariannu heriol. Mae incwm a enillir, twf masnachol a theyrngarwch y gynulleidfa'n hanfodol i'n gwytnwch yn y tymor hir. Rydyn ni'n chwilio am arweinydd cadarnhaol, ysgogol i ymuno â'n Tîm Rheoli Uwch a helpu Theatr Brycheiniog i dyfu. Nid mater o werthu tocynnau'n unig mo hyn; mae'n ymwneud ag arwain sut rydyn ni'n cysylltu â'n cymuned, cyrraedd at ragor o bobl ac adrodd ein stori.

Byddwch chi'n:
- Tyfu ac amrywio cynulleidfaoedd
- Cynyddu incwm ac elw o docynnau
- Cryfhau eglurder ac amlygrwydd y brand
- Hyrwyddo gwneud penderfyniadau ar sail data
- Cydbwyso rhaglennu, gweithgaredd masnachol ac ymgysylltiad cymunedol
- Sicrhau fod ein theatr yn groesawgar, yn gynhwysol ac yn berthnasol

Byddwch chi'n arwain ar ein holl waith marchnata, cyfathrebu a datblygu cynulleidfa. Eich cenhadaeth fydd cynyddu ein proffil a sicrhau ein bod ni'n cwrdd â'n targedau yn gyffredinol, o werthiant tocynnau ac incwm masnachol i ymgysylltu â'r gymuned a phrofiad ymwelwyr. Fel hyrwyddwr ein brand, byddwch chi'n sicrhau fod ein presenoldeb yn gynhwysol, yn nerthol ac yn gyson, boed rhywun yn mynychu sioe, cymryd rhan mewn prosiect addysg, llogi lle, neu'n mwynhau coffi bach yn ein caffi.

Lleolir y swydd hon wrth galon profiad y gynulleidfa yn Theatr Brycheiniog. Mae'n dod â chyfrifo deb a chyfle yn ei sgil. Bydd gennych drosolwg uniongyrchol o'n tîm marchnata a thocynnau, gan eu cefnogi i ffynnu wrth i ni gydweithio i wneud y theatr yn lle bywiog, croesawgar i bawb. Fel sefydliad sy'n cael ei ariannu yng Nghymru, mae gennym gyfrifoldeb a chyfle i ddathlu a meithrin creadigrwydd Cymreig yn ei holl ffurfiau. Mae hynny'n cynnwys cefnogi artistiaid a chwmnïau o Gymru, cryfhau ein presenoldeb Cymraeg, adlewyrchu amrywiaeth Cymru gyfoes, a sicrhau fod ein rhaglenni a'n cyfathrebu'n siarad yn ystyrlon â'r cymunedau a wasanaethir gennym.

Rydyn ni'n dîm bach, ymroddedig gydag uchelgais fawr. Mae hynny'n golygu meddwl yn strategol wrth godi ein llewys i weithio. Mae'n golygu defnyddio data'n ddoeth heb golli golwg ar greadigrwydd a chyswllt bob amser. Ac mae'n golygu cydnabod fod twf cynaliadwy'n galw am uchelgais artistig a disgyblaeth fasnachol ar yr un pryd.

Os ydych chi'n angerddol dros y celfyddydau, yn barod am her, ac yn cael eich symbylu gan waith ble gallwch weld effaith ddiriaethol eich arweinyddiaeth bob dydd, hoffwn groesawu eich cais yn fawr iawn.

Gyda dymuniadau gorau

*Sara St George.*

Prif Weithredwr | Chief Executive









# Am Theatr Brycheiniog

Theatr Brycheiniog yw un o brif gyrchfannau theatr a diwylliant Canolbarth Cymru. Ein cartref, a agorwyd ym 1997, oedd y sefydliad celfyddydau newydd cyntaf i gael ei ariannu'n llwyr gan y Loteri Genedlaethol ym Mhrydain. Rydyn ni'n cynnal amrywiaeth eang o waith proffesiynol a chymunedol yn ein hawditoriwm hyblyg 470 sedd (neu 600 ar eu traed) gyda lle stiwdio mawr a chaffi, bar a mannau cyfarfod prysur.

Lleolir y Theatr wrth ymyl pen camlas hanesyddol Sir Fynwy ac Aberhonddu – sy'n dathlu'i phen-blwydd yn 225 oed eleni, ac a ddisgrifiwyd fel 'un o'n dyfrffyrdd mwyaf prydferth a heddychlon' gan yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd. Rydyn ni hefyd ar ddechrau Llwybr Taf, 55 milltir o hyd, sy'n dirwyn heibio i fynydd uchaf de Prydain, gerllaw rhai o safleoedd cynharaf y Chwyldro Diwydiannol, yr holl ffordd i ardal fywiog Bae Caerdydd.

Byddwn ni'n cynnal ystod eang o gynyrchiadau teithiol proffesiynol ar draws theatr, cerddoriaeth a dawns. Rydyn ni hefyd yn falch o'r gwaith a wneir yma i feithrin doniau ifanc – ac i annog cyfranogiad ar draws pob oed. Ni yw cartref Bale Gŵyl Aberhonddu, sy'n cynnig dawns proffesiynol o ansawdd uchel ac sy'n rhoi cyfleoedd i'r gymuned gyfranogi, dysgu a pherfformio; mae'r Westenders a Theatr Fach Aberhonddu yn ddau grŵp theatr cymunedol sydd wedi ymgysylltu â'r ardal a'i diddanu ers cenedlaethau – a daw llawer o grwpiau cymunedol eraill yma ar hyd y flwyddyn. Rydyn ni hefyd yn cynnig gweithgareddau wythnosol i symud y meddwl yn ogystal â'r corff. Yma y cynhelir un o ganghennau prysuraf y wlad o'r U3A (Prifysgol y Drydedd Oes). Mae yna gôr cymunedol hefyd, band cyngerdd a llawer mwy.









# Byw A Gweithio Yma

Mae Theatr Brycheiniog wrth wraidd cymuned ddiwylliannol â'i gwreiddiau'n ymestyn yn ôl bron i fil o flynyddoedd. Mae gennym gastell Normanaidd, eglwys gadeiriol Ganoloesol, camlas Sioraidd (y tu fas i'n drws ffrynt) a hanes o greu theatr sy'n dyddio'n ôl i 1699 o leiaf.

Codwch eich pen, ac fe welwch fynyddoedd grymus Bannau Brycheiniog, a'u copa uchaf, Pen y Fan – y pwynt uchaf yn ne Prydain. Uwchlaw hynny eto, mae ein hwybren hwyrol a'r cyfleoedd syfrdanol sydd yma i syllu ar y sêr, gan beri mai ni yw dim ond y pumed cyrchfan yn y byd i gael statws gwarchodfa awyr dywyll ryngwladol. Ewch am dro fach ac rydych chi ar lannau Afon Wysg. Cerddwch o amgylch y dref a gallwch ddod o hyd i amrywiaeth gyfoethog o orielau celf, busnesau annibynnol a llawer o leoliadau masnachol sy'n cynnig cerddoriaeth fyw drwy gydol y flwyddyn.

Mae hyn oll yn golygu bod digon o botensial i'r person cywir lunio'r ffordd ymlaen i'r Theatr a'r gymuned ehangach. Mae mwy na phedair miliwn o bobl yn ymweld â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog bob blwyddyn gan wario tua £278 miliwn. Maen nhw'n dod ar gyfer ein mynyddoedd a'n rhaeadrau, ein mannau agored eang a hefyd am ein hystod gyfoethog o gynigion celfyddydol a diwylliannol.



Photo courtesy of Brecon Story


Llun drwy garedigrwydd Brecon Story









# Ein Gwerthoedd

Mae gwerthoedd Theatr Brycheiniog yn sail i bopeth a wnawn. Rydyn ni'n:

## Creadigol

Rydyn ni'n ysbrydoli, yn fywiog, yn artistig, yn ddeniadol. Rydyn ni'n angerddol o blaid symbylu a herio cynulleidfaoedd, gan ddefnyddio dychymyg ac arloesi ym mhopeth a wnawn.

## Ymgysylltiol a chynhwysol

Rydyn ni'n ymgysylltu mewn cynifer o ffyrdd ag y gallwn er mwyn bod mor gynhwysol, hygyrch ac amrywiol ag y gallwn. Gan ddefnyddio diwylliant o gefnogi, rydyn ni'n ymgysylltu â'r cynulleidfaoedd mwyaf eang, gan sicrhau cydraddoldeb yn ein cais am fwy o amrywiaeth a chynrychiolaeth.

## Ymroddedig Gymru

Rydyn ni'n falch o'n diwylliant, ein lleoliad a'n hiaith. Rydyn ni'n arwain yn gyhoeddus gyda'r Gymraeg yn gyntaf, gan hybu a mwyhau'r dirwedd ddiwylliannol leol, ranbarthol a chenedlaethol a gwneud hynny'n greiddiol i'n hunaniaeth.

## Cyfrifol

Rydyn ni'n dymuno bod cystal fyth ag y gallwn: ymgyrraedd at fod mor wyrdd â phosib, ceisio cyfiawnder hinsawdd. Rydyn ni'n ystyried y dyfodol. Rydyn ni'n eirwir, yn deilwng o ymddiriedaeth, yn foesol a dibynadwy. Rydyn ni'n darparu profiad cadarnhaol ac yn adlewyrchu hynny'n artistig a gweithredol ym mhopeth a wnawn er mwyn cyflawni ein potensial.

## Cydweithio a Bod yn Groesawgar

Rydyn ni'n gyfeillgar, yn agored a chroesawgar, yn yr un modd ag yr ydym ni'n ddymunol a thosturiol. Rydyn ni'n benderfynol o weithio'n galed i werthfawrogi ein cymuned ac i greu partneriaeth gydweithredol â'n holl ddefnyddwyr, sefydliadau cymunedol, artistiaid, gweithwyr creadigol a phartneriaid yn y diwydiant i gyflawni ein hamcanion. Rydyn ni'n cynnig amgylchedd cyfeillgar ble mae cynulleidfaoedd, ymwelwyr, staff a gwirfoddolwyr wrth galon popeth a wnawn bob amser.

## Heriol

Rydyn ni'n arloesi ac yn gwella, yn esblygu a thyfu er mwyn cynnal ansawdd uchel, Rydyn ni'n uchelgeisiol a hyblyg, gan herio ein hunain bob amser i wneud yn well dros y cymunedau a wasanaethir gennym.





Llun drwy garedigrwydd Theatr na nÓg

# Cydraddoldeb a Chynhwysiant

Mae Theatr Brycheiniog ar gyfer Pawb. Rydyn ni'n agored i bawb ac yn falch o adlewyrchu amrywiaeth Canolbarth Cymru ar draws ein cynulleidfaoedd, ein perfformwyr, ein staff, ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr. Rydyn ni'n ceisio ffyrdd newydd a chynhwysol o annog ystod ehangach o bobl i fwynhau a chymryd rhan yn y gorau y gall y celfyddydau eu cynnig.



# Y SWYDD

Fel Pennaeth Cynulleidfaoedd a Marchnata, byddwch chi'n rhan o'r Tîm Arweinyddiaeth Uwch (SLT) ac yn gweithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr a'r SLT i helpu i lunio cyfeiriad y sefydliad.

Byddwch chi'n arwain marchnata, cyfathrebu, datblygu cynulleidfaoedd a thrin tocynnau, gan sicrhau bod ein stori'n cael ei hadrodd yn glir, yn gyson ac yn gymhellol.

Mae'r rôl hon yn cydbwyso strategaeth y darlun mawr â chyflawni ymarferol. Sefydliad bach ydyn ni, ac mae cydweithio'n bwysig. Bydd angen i chi symud yn gyffyrddus rhwng arwain, dadansoddi, creadigrwydd a gweithredu.

Sut Olwg sydd ar Lwyddiant yn Eich 18 Mis Cyntaf

- Strategaeth glir wedi'i llywio gan ddata ar gyfer datblygu cynulleidfaoedd, sy'n unol â'n cenhadaeth
- Twf mesuradwy mewn presenoldeb ac allbwn
- Presenoldeb cryfach yn y cyfryngau a mwy o gydlyniant brand
- Mwy o soffistigedigrwydd CRM a defnydd effeithiol o Ticketsolve
- Dangosyddion Perfformiad Allweddol a fframweithiau adrodd clir
- Cydweithio cryfach rhwng marchnata, rhaglennu, y caffi a blaen y tŷ
- Twf mewn llogi lleoliadau a/neu wariant eilaidd
- Cynnydd mewn arallgyfeirio cynulleidfaoedd
- Dull rhagweithiol o ddwyieithrwydd ar draws pob platfform sy'n wynebu'r cyhoedd a chyfathrebu mewnol.





Pennaeth Cynulleidfaoedd a Marchnata:

# BETH FYDDWCH CHI'N EI WNEUD

## Arwain â Gweledigaeth:

- Hyrwyddo strategaeth sy'n seiliedig ar ddata i ddatblygu a chyfathrebu â chynulleidfaoedd er mwyn dod â'n cenhadaeth a'n gwerthoedd yn fyw.
- Ysgogi twf ac arallgyfeirio o ran cynulleidfaoedd, gan sicrhau bod mwy o bobl yn ymweld â'r theatr ac yn teimlo'n gartrefol yma.
- Meithrin perthynas fewnol gref, ynghyd â chydweithio i sicrhau bod marchnata yn ymdrech ar y cyd, o'r caffi i'r llwyfan.
- Datblygu partneriaethau â busnesau, cymunedau a sefydliadau i wneud y mwyaf o amlygrwydd y sefydliad a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd.
- Adeiladu partneriaethau strategol â busnesau a chymunedau i ehangu ein hamlygrwydd ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd.
- Arwain ac ysbrydoli'r tîm marchnata a thocynnu, gan feithrin diwylliant o dwf proffesiynol a rhagoriaeth.

## Ymgyrchoedd ac Adrodd Straeon:

- Cynllunio a chynnal ymgyrchoedd integredig ar gyfer popeth a wnawn; ein brand, sioeau, aelodaeth, a llogi lleoliadau.
- Sicrhau bod ein copi ysgrifenedig, dylunio, a chynnwys digidol yn hygyrch, yn gynhwysol, a deniadol.
- Datblygu dull 'digidol yn gyntaf', rheoli ein gwefan, a thyfu ein cyfryngau cymdeithasol, a marchnata e-bost i sicrhau cysylltedd ein cynulleidfa.
- Meithrin perthynas â'r wasg a'r cyfryngau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i rannu'r straeon ac adeiladu ein brand.
- Gweithio gyda'r Rheolwr Cyffredinol, arwain ar drefnu galwadau i'r wasg, meithrin, a digwyddiadau cysylltiadau cyhoeddus eraill.

## Brand a Chynnwys Creadigol

- Gweithredu fel ceidwad y brand, gan sicrhau hunaniaeth weledol a naws, sy'n gyson ar draws pob deunydd a lleoliad.
- Datblygu strategaethau adrodd straeon a chynnwys sy'n cryfhau cysylltiad ac eiriolaeth y gynulleidfa.
- Sicrhau fod pob cyfathrebiad yn adlewyrchu hunaniaeth, gwerthoedd ac ymrwymiad y theatr i hygyrchedd, cynhwysiant a pherthnasedd lleol.

## Data a Thwf:

- Defnyddio Ticketsolve a data cynulleidfaoedd i wneud penderfyniadau gwybodus a deall pwy yw ein hymwelwyr a phwy allen nhw fod.
- Darparu mewnwelediad ac adrodd ar werthiant, tueddiadau cynulleidfaoedd, a pherfformiad marchnata.
- Gan weithio'n agos gyda'r tîm Tocynnu, goruchwylio datblygiad y system CRM / swyddfa docynnau, gan hyrwyddo'r defnydd mwyaf posibl o'r system ar gyfer yr elw mwyaf ar fuddsoddiad.
- Gosod dangosyddion perfformiad allweddol clir ar gyfer gwerthu a'r gynulleidfa; monitro strategaethau prisio ac allbwn.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â GDPR a stiwardiaeth data gadarn ar draws pob system farchnata

## Datblygu Masnachol:

- Gweithio gyda'r timau caffi a blaen tŷ i gynyddu nifer yr ymwelwyr, gwelededd, a gwariant eilaidd.
- Arwain y gweithgaredd marchnata ar gyfer llogi lleoliadau corfforaethol a chymunedol, gan ddatblygu deunyddiau a phecynnau gwerthu.
- Cefnogi cyfathrebiadau codi arian a phartneriaeth lle bo angen.

## Rheoli Adnoddau:

- Gweithio gyda'r Prif Weithredwr i osod targedau cynulleidfa ac incwm, a rheoli cyllidebau marchnata a chyfathrebu, staff ac adnoddau eraill gan sicrhau bod gweithgaredd yn darparu elw mesuradwy ar fuddsoddiad.
- Rhagweld gwariant marchnata a thargedau incwm gyda'r Prif Swyddog Gweithredol.
- Cyfrannu data a gwybodaeth berthnasol at geisiadau ac adroddiadau ariannu.
- Goruchwylio cytundebau a pherthynas â gweithwyr llawrydd, asiantaethau, argraffwyr a chyflenwyr cyfryngau.

# MANYLEB Y PERSON

## Amdanoch chi:
Tîm bach, ymroddedig, ydyn ni, felly rydyn ni'n chwilio am arweinydd cydweithredol a strategol sy'n hapus i gydbwyso cynllunio lefel uchel â chyflawni tasgau beunyddiol. Byddwch chi'n ffynnu mewn amgylchedd lle nad oes dau ddiwrnod yr un peth, a gallwch weld effaith uniongyrchol eich gwaith.

## Sgiliau a Phrofiad Hanfodol:
- Profiad o arwain marchnata a datblygu cynulleidfaoedd, yn ddelfrydol o fewn y sectorau celfyddydau, treftadaeth, neu ddigwyddiadau byw.
- Gallu profedig i ddylunio a rhedeg ymgyrchoedd marchnata effeithiol wedi'u llywio gan ddata a mewnwelediadau cynulleidfaoedd.
- Dealltwriaeth gref o frandio ac ymrwymiad i greu taith groesawgar a di-dor i'r cwsmer.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol gyda dawn am adrodd straeon sy'n cyrraedd at ac yn cynrychioli ystod amrywiol o bobl.
- Angerdd gwirioneddol dros wneud y celfyddydau'n hygyrch ac yn gynhwysol i bawb yn ein cymuned.
- Gallu profedig i reoli cyllidebau, gosod targedau, ac arwain tîm gyda meddylfryd cefnogol, sy'n canolbwyntio ar dwf.

## Dymunol:
Peidiwch â digalonni os nad oes gennych y rhain eto. Rydyn ni'n hapus i gefnogi'r ymgeisydd cywir i ddysgu'r meysydd hyn:
- Profiad o ddefnyddio Ticketsolve neu systemau CRM/tocynnu tebyg.
- Profiad o godi arian, aelodaeth, neu farchnata partneriaeth.
- Cysylltiad â, neu'n gyfarwyddyd â, thirwedd y celfyddydau yng Nghanolbarth Cymru a'r rhanbarthau cyfagos.
- Y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg, neu ddealltwriaeth o Safonau'r Iaith Gymraeg o fewn cyd-destun diwylliannol.

Mae Theatr Brycheiniog wedi ymrwymo i fod yn gyflogwr teg. Rydyn ni'n gwarantu i gynnig cyfweliad i ymgeiswyr anabl sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y rôl.

Os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch ar unrhyw gam o'r broses ymgeisio neu gyfweld (oherwydd anabledd, cyflwr iechyd, neu niwroamrywiad), cysylltwch â jobs@brycheiniog.co.uk Bydd pob cais yn cael ei drin yn ochelgar ac ni fydd yn effeithio ar asesiad eich cais.

# CRYNODEB TELERAU

| | |
|---|---|
| **Cyflog:** | £34,000 |
| **Cytundeb:** | Parhaol, llawn amser |
| **Pensiwn cyfraniadol:** | **Mae Theatr Brycheiniog yn gweithredu pensiwn cyfraniadau rhanddeiliaid, a bydd deiliad y rôl yn gymwys i'w gynnwys yn y cynllun hwnnw.** |
| **Gwyliau blynyddol:** | 28 diwrnod i ddechrau (gan gynnwys gwyliau banc), yn cynyddu ar ôl dwy flynedd o wasanaeth ac wedyn yn unol â'n polisïau gwyliau ac amser o'r gwaith. |
| **Cyfnod prawf:** | Chwe mis |
| **Cyfnod rhybudd gorffen:** | O leiaf 2 fis |
| **Buddion eraill:** | Hawl i barcio am ddim a disgownt i staff yn y caffi. Mae system tocynnau am ddim ar gael i staff, a disgwylir i ddeiliad y swydd wylio ystod eang o berfformiadau a digwyddiadau eraill fel rhan o'r swydd. |
| **Polisïau eraill:** | Mae Theatr Brycheiniog yn gyflogwr ystyriol o deuluoedd ac ystyrir ceisiadau am rannu swydd a gweithio hyblyg. |
| **Lleoliad:** | Lleolir y swydd yn Aberhonddu. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd fyw o fewn pellter y gellir cymudo iddo o'r theatr. Gellir ystyried cyfran o weithio hybrid, fel y bo'n addas i'r swydd, ond rhan all-weddol o'r swydd yw bod ar y safle ac yn arweinydd gweladwy dros y tîm ac yn llysgennad i'r gymuned ehangach. Gellir ystyr-ied pecyn adleoli. |




Llun drwy garedigrwydd Brecon Story

# SUT I YMGEISIO

I wneud cais, anfonwch CV ynghyd â llythyr cyflwyno (hyd at bedair tudalen) yn egluro sut y bydd eich sgiliau a'ch profiad yn eich galluogi i gyflawni'r cyfrifoldebau allweddol a manyleb y person ar gyfer y swydd hon. Anfonwch eich cais drwy e-bost: **Jobs@brycheiniog.co.uk**

Byddwn ni hefyd yn fodlon derbyn fersiynau fideo neu sain o CVs a llythyrau cyflwyno hyd at bum munud o hyd. Rydyn ni'n hapus i ystyried fformatau eraill – rhowch wybod i ni beth fyddai'n gweithio i chi. Cydnabyddir pob cais.

Rydyn ni wedi ymrwymo i dyfu sefydliad amrywiol a chynhwysol ac rydyn ni'n annog yn gryf geisiadau gan bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein tîm. I fonitro hyn, hoffem eich gwahodd i lawrlwytho a chwblhau ein Ffurflen Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth hefyd. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn ffurfio cofnod cyfrinachol a ddefnyddir i fonitro gweithrediad ein Polisi Cyfle Cyfartal yn unig, yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998 a deddfwriaeth gysylltiedig.

Os hoffech gael sgwrs gychwynnol a chyfrinachol am y swydd, anfonwch e-bost at jobs@brycheiniog.co.uk i gysylltu â Sara St George, ein Prif Weithredwr.

**Dyddiad cau derbyn ceisiadau yw dydd Gwener 17 Ebrill 2026 am 9am.**

Cynhelir y cylch cyntaf o gyfweliadau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ddydd Llun 27 Ebrill.

Mae Theatr Brycheiniog Cyf yn gwmni a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr (Rhif Cwmni 2446965) ac yn elusen gofrestredig (rhif elusen 1005372)